Edrychwch ar The Plant Atlas 2020 am wybodaeth fanylach am y rhywogaethau a restrir isod.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.

Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

RD. Pryce & KA. Pryce sydd piau hawlfraint pob llun.

* *Rhestr o Blanhigion Fasgwlaidd Data Coch ar gyfer Cymru*, Plantlife, 2008


| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
| *Gentianella amarella* ssp. *occidentalis* (*G. uliginosa*) **crwynllys y twyni**  | • **Cynefin cysylltiedig:** planhigyn unflwydd ar dwyni'r arfordir a llaciau twyni, fel arfer ar dir agored neu mewn llystyfiant byr a gynhelir drwy bori, aflonyddwch neu lifogydd y gaeaf.<br>• Statws presennol:<br>**Rhestr Data Coch Cymru -** Bregus (Bregus ym Mhrydain)<br>Wedi'i warchod o dan Atodlen 8 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.<br>Cofnodwyd planhigyn endemig yn y DU o 5 tetrad yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 2 ar ôl 2000. Nid oes unrhyw gofnodion yn Sir Gaerfyrddin ers 2012.<br>• Rhywogaeth sydd wedi'i chyfyngu i systemau twyni yng Ngogledd Dyfnaint, Gŵyr a Sir Gaerfyrddin. Er bod y boblogaeth yn Nhwyni Tywyn yn fach ac yn fregus iawn, ymddengys mai dyma'r fwyaf o'r holl boblogaethau, a'i bod felly'n bwysig iawn.<br>• Hyd y 1980au yn Sir Gaerfyrddin, roedd y rhywogaeth yn hysbys yn Nhwyni Talacharn lle cafodd ei chofnodi ddiwethaf yn 1994 ac yn Nhwyni Tywyn ond, yn y blynyddoedd diwethaf, fe'i cyfyngwyd i'r hen helipad yn Nhwyni Tywyn.<br>• Yn 2012 gwelwyd nifer o blanhigion hefyd ger targedau RAF mewn mannau lle nas gwelwyd mohonynt erioed o'r blaen, ond diflannodd y planhigion hynny ar ôl 2013<br>**Camau gweithredu cyfredol:**<br>• Mae CNC ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar grwynllys y twyni ym Maes Arfau Traeth Pen-bre. Mae adroddiad arbenigol gydag argymhellion wedi llywio'r gwaith rheoli ac adfer.<br>• Yng Nghanolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn Pentywyn mae CNC yn parhau â gwaith prosiect Twyni Byw ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i adfer y cynefin lle cafwyd hyd i grwynllys y twyni ddiwethaf.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Yn lleihau'n barhaus. Wedi diflannu o Sir Gaerfyrddin o bosib?<br>• **Bygythiadau:**<br>• Llygredd gwasgaredig yn yr aer.<br>• Yn agored iawn i gytrefu gan brysgwydd a llystyfiant bras.<br>• Rheolaeth aneffeithiol o ran cadwraeth. | • Dylid cynnal arolwg blynyddol yn Nhwyni Tywyn ar safleoedd cafwyd cofnodion ohono yn y gorffennol.<br>• Mae angen cynnal arolygon rheolaidd ar safleoedd lle cafodd ei gofnodi'n flaenorol yn Nhwyni Talacharn, a hefyd mewn cynefinoedd lle gallai fod yn bresennol. |
| *Silene gallica* gludlys amryliw | • **Cynefin cysylltiedig:** • Unflwydd mewn tir amaethyddol sydd wedi'i aflonyddu, yn bennaf ar gaeau âr ar briddoedd tywodlyd a graeanog (sy'n | • Edrych ar ymarferoldeb ailgyflwyno'r planhigyn ar safle addas ym Mhorth Tywyn, lle gellir rheoli'r safle'n ddiogel. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
|  | asidig yn aml) ac ar waliau a thir gwastraff.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Bregus (Mewn perygl ym Mhrydain).<br>Wedi'i gofnodi ar 8 safle yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 1 ar ôl 2000.<br>• Ei unig safle yn Sir Gaerfyrddin yw Harbwr Porth Tywyn. Roedd niferoedd y planhigion yn amrywio'n fawr o'r naill flwyddyn i'r nesaf, ond yn y blynyddoedd diwethaf bu gostyngiad cyffredinol mewn niferoedd (2015 - 33 o blanhigion yn blodeuo, 2017 - 3 phlanhigyn, 2019 - 17 o blanhigion) ac nid oes **unrhyw** gofnodion cyfredol o blanhigion.<br>Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau<br>• **Tueddiadau**: Mae'n ymddangos fel pe bai poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi ildio, ar ôl rhai blynyddoedd pan na chafwyd unrhyw reolaeth ar hyd y wâl uchaf lle cafodd ei chofnodi.<br>Er bod y set hadau yn ddigonol i gynnal y banc hadau pridd mewn blynyddoedd da, mae'n annhebygol y bydd hynny'n wir mewn blynyddoedd gwael.<br>• **Bygythiadau:**<br>• Yn agored i gytrefu gan brysgwydd a llystyfiant bras<br>• Rheolaeth wael ar safleoedd.<br>• Diffyg rheolaeth angenrheidiol. | |
| *Armeria Dianthus* penigan y porfeydd<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Planhigyn unflwydd neu luosflwydd byrhoedlog ar safleoedd agored sydd wedi'u haflonyddu, fe'u gwelir mewn glaswelltir byr mewn porfeydd, ymylon ffyrdd ac ymylon caeau ac yn achlysurol ar dir gwastraff.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Bregus (Mewn perygl ym Mhrydain)<br>Wedi'i warchod o dan Atodlen 8 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981<br>Cofnodwyd ar 5 safle yn Sir Gaerfyrddin, 3 ar ôl 2000. Dim ond 1, efallai 2, sy'n bodoli bellach.<br>• Yn y blynyddoedd diwethaf, cydnabuwyd tri safle y tu allan i erddi yn y sir, gan gynnwys safle newydd a ddarganfuwyd yn 2021 ger Hendy-gwyn ar Daf, lle darganfuwyd cyfanswm o 11 o blanhigion.<br>Ni wyddys beth yw statws cyfredol safle Pinged gan nad yw wedi cael ei fonitro ers 2013. Gostyngodd y boblogaeth fechan ym Mhwll yr Hen Gastell, Llanelli, a ddarganfuwyd yn 2007 yn ystod y ddwy flynedd ganlynol ac roedd wedi diflannu erbyn 2010.<br>• Mae gan GFGC had ar gyfer eu Banc Hadau – crëwyd swmp o hadau drwy amaethu.<br>• **Tueddiadau:** Rhywogaeth braidd yn fyrhoedlog, a allai bellach fod wedi diflannu'n llwyr ar safleoedd hysbys blaenorol.<br>Mae'n syndod bod *D. armeria* mor brin yn y gwyllt, oherwydd lle bynnag y caiff hadau eu hau ar dir graeanog neu agored, ymddengys ei bod yn amlhau ac yn ei chynnal neu ei lluosogi ei hun o'r naill flwyddyn i'r nesaf.<br>• **Bygythiadau:** Aflonyddu cynefinoedd, llystyfiant bras yn gordyfu.<br>**Camau Cyfredol:**<br>• Ym mis Medi 2013, casglwyd ychydig o hadau dan drwydded o safle Pinged a'u trosglwyddo i GFGC i'w lluosogi *ex situ,* a bu hynny'n llwyddiant. Drwy brosiect ailgyflwyno mae planhigion wedi'u lluosogi wedi cael eu cyflwyno i safle lleol. | • Cysylltu â pherchnogion newydd Pinged i ailarolygu'r safle.<br>• Ailarolygu safle Hendy-gwyn ar Daf. |
| *Euphrasia rivularis* effros y nant / effros yr Wyddfa | • **Cynefin cysylltiedig:** • Unflwydd yn ardaloedd creigiog yr ucheldir, mewn ardaloedd tryddiferu ac ar siliau creigiog gwlyb.<br>• **Statws presennol:** | • Parhau i arolygu cynefinoedd posibl mewn ardaloedd cyffredinol lle ceir safleoedd hysbys.<br>• Gwaith monitro arbenigol ar |


| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
|  | **Rhestr Data Coch Cymru -** Mewn perygl (Bregus ym Mhrydain)<br>Planhigyn brodorol o'r DU, gydag 21 o fân boblogaethau yn Sir Gaerfyrddin, pob un wedi'i chofnodi ar ôl 2000.<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r prif boblogaethau i'w cael ar laciau cyfoethog ar frigiadau craig galch garbonifferaidd Mynydd Du tua'r dwyrain at lethrau'r Hen Dywodfaen Coch i'r gogledd o Fan Caerfyrddin, o fewn yr ardal o'r sir sydd ym Mannau Brycheiniog.<br>• Darganfuwyd poblogaeth newydd ar ymyl gogledd-orllewinol Mynydd Llanllwni yn 2014 sy'n cynrychioli 'carreg gamu' i'r poblogaethau agosaf nesaf yn Eryri.<br>• **Tueddiadau**: Yn sefydlog mae'n debyg.<br>• **Bygythiadau:** Ychydig o fygythiadau a geir mae'n debyg, ac eithrio o lygredd gwasgaredig yn yr aer ac mewn dŵr daear. | safleoedd hysbys. |
| *Euphrasia montana* (*E. rostkoviana* subsp. *montana, E. officinalis* var. *montana, E. officinalis* ssp. *monticola, E. montícola*) **torfagl mynyddog**<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Unflwydd ar ddolydd gwair sych yr ucheldir, dolydd gwlyb a ffeniau.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Bregus (Bregus ym Mhrydain)<br>Cofnodwyd 2 safle yn Sir Gaerfyrddin ar ôl 2000 ond oherwydd problemau'n gysylltiedig â thacsonomeg ac adnabod planhigion, ni cheir rhyw lawer o wybodaeth am amlder a dosbarthiad ssp. montana.<br>• **Tueddiadau:** Yn eithaf sefydlog, mae'n debyg.<br>• **Bygythiadau:** Mae'n debyg mai ychydig o fygythiadau a geir ac eithrio o lygredd gwasgaredig yn yr aer.<br>Yn dilyn cyhoeddi *BSBI Euphrasia Handbook*, ymddengys fod cytundeb ynghylch y dacsonomeg a'i bod yn sefydlog, gan roi cyfle i fod yn fwy sicr wrth adnabod y planhigyn. | • Gwaith monitro arbenigol ar safleoedd hysbys. |
| ***Euphrasia anglica*** (***E. officinalis*** **subsp.** ***anglica***) **effros Seisnig**<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Unflwydd ar ddolydd gwair, tir pori, gweundir, rhostir, rhodfeydd mewn coedwigoedd ac ati, ar dir cymharol isel fel arfer, ond yn cyrraedd ei lefel uchaf ym Mhrydain o 395m yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Bregus (Mewn perygl ym Mhrydain)<br>Planhigyn brodorol y DU a gofnodwyd o 43 o detradau yn Sir Gaerfyrddin, a thua 25 wedi'u cofnodi ar ôl 2000.<br>• Yn eithaf cyffredin ac i'w weld yn fynych yn lleol ar laswelltir asid heb ei wella, ac ar lwybrau mewn coedwigoedd yn neuparth dwyreiniol y sir.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Yn eithaf sefydlog, mae'n debyg.<br>• **Bygythiadau:** Mae'n debyg nad yw dan fygythiad. | • Gwaith monitro arbenigol ar safleoedd hysbys. |
| *Gymnadenia densiflora* tegeirian pêr y gors<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Llaciau twyni arfordirol yn bennaf gydag ychydig o boblogaethau bach ar laswelltir mewndirol cyfoethog heb ei wella<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** -Diffyg Data (Diffyg Data ym Mhrydain)<br>Mae'r rhywogaeth ehangach wedi'i chofnodi o 23 tetrad yn Sir Gaerfyrddin, a dim ond 6 o'r rheiny sy'n gofnodion ar ôl 2000. Dim ond 3 o boblogaethau *G. densiflora* y gwyddys eu bod yn dal i fodoli.<br>• Ceir poblogaethau bychain yn Nhwyni Talacharn a Thywyn ac o bosib ar un safle mewndirol.<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau'n gyson.<br>• **Bygythiadau:** Mae'n debyg nad yw'r rhywogaeth o dan fygythiad yn ei safleoedd ar dwyni'r arfordir, ond | • Monitro'r holl safleoedd yn rheolaidd ond safleoedd mewndirol yn enwedig. Ychydig o'r rheiny sydd wedi cael eu monitro ers arolwg Cam 1 CCGC ar ddiwedd y 1980au.<br>• Ceisio gwarchod safleoedd mewndirol mewn cydweithrediad â thirfeddianwyr.<br>• Parhau i reoli safleoedd arfordirol, gan gynnwys defnyddio mentrau cadwraeth fel Twyni Byw. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
| | mae'n debyg bod colli cynefinoedd glaswelltir mewndirol yn fygythiad difrifol.<br>Mae llygredd gwasgaredig yn yr aer a dŵr daear yn debygol o fod yn fygythiadau i'r rhywogaeth hon. | |
| *Gymnadenia borealis*<br>tegeirian pêr gogleddol<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir asid llaith a rhos.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru -** Diffyg Data (Heb fod dan fygythiad ym Mhrydain)<br>Mae'r rhywogaeth ehangach wedi'i chofnodi o 23 tetrad yn Sir Gaerfyrddin, a dim ond 6 o'r rheiny sy'n gofnodion ar ôl 2000. Dim ond 1 boblogaeth *G. borealis* y gwyddys ei bod yn dal i fodoli.<br>• *Mae'n debyg* mai'r rhywogaeth hon yw'r rhan fwyaf o rywogaethau *Gymnadenia* mewndirol.<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau'n gyson.<br>• **Bygythiadau:** Mae'n debyg bod colli cynefinoedd glaswelltir mewndirol yn fygythiad difrifol.<br>Mae llygredd gwasgaredig yn yr aer a dŵr daear yn debygol o fod yn fygythiadau i'r rhywogaeth hon. | • Monitro'r holl safleoedd yn rheolaidd - ychydig o'r rheiny sydd wedi cael eu monitro ers arolwg Cam 1 CCGC ar ddiwedd y 1980au.<br>• Ceisio gwarchod safleoedd mewn cydweithrediad â thirfeddianwyr. |
| *Hypopitys monotropa* subsp. *hypophegea* (*Monotropa hypopitys* subsp. *hypophegea*)<br>cytwf<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** planhigyn lluosflwydd saproffytig sy'n tyfu o hen ddail marw mewn coetiroedd cysgodol.<br>• **Statws presennol (rhestr Data Coch Cymru):** Heb fod dan fygythiad (Mewn perygl ym Mhrydain)<br>Wedi'i gofnodi ar 11 safle yn Sir Gaerfyrddin, gyda 5 o'r rheiny'n gofnodion ar ôl 2000, ond ymddengys mai ond darganfyddiad 2022 sy'n parhau i fodoli.<br>Mae poblogaethau'n tueddu i fod yn ddarfodedig. cafodd y boblogaeth ddiwethaf ym Mharc Arfordirol y Mileniwm rhwng Pwll a Phorth Tywyn, ac yng Nghoedwig Pen-bre, a gynyddodd ac a ostyngodd yn naturiol dros gyfnod o tua 5-10 mlynedd, ei gweld ddiwethaf yn 2013.<br>Darganfuwyd un coesyn yn blodeuo ar ymyl hen safle Grillo ym Mhorth Tywyn yn 2022.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau**: Darfodedig<br>• **Bygythiadau:** Colli cynefin, ee oherwydd aflonyddwch a phrysgwydd yn cytrefu.<br>Colli cynefin tir llwyd. | • Cynllun rheoli wedi'i ysgrifennu gan geidwad Parc Arfordirol y Mileniwm, yn cynnwys argymhellion rheoli.<br>• Monitro safleoedd blaenorol yn rheolaidd bob blwyddyn.<br>• Bydd angen monitro'r safle newydd ym Mhorth Tywyn yn agos gan ei fod ar safle tir llwyd sydd ar fin cael ei ailddatblygu. Mae angen sicrhau bod y datblygwr a'i ymgynghorwyr yn ymwybodol o'i bresenoldeb, hyd yn oed os ydynt wedi ymgynghori â Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, gan na fydd cofnod ohono wedi cyrraedd y Ganolfan eto. |
| *Liparis loeselii* var. *ovata*<br>tegeirian y fign | • **Cynefin cysylltiedig:** Llac twyni olynol cynnar, gyda llystyfiant agored.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Mewn perygl difrifol (Mewn perygl ym Mhrydain)<br>Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop<br>Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE Atodiad IIb a IVb<br>Confensiwn Bern Atodiad 1<br>Wedi'i warchod o dan Atodlen 8 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.<br>Yn frodorol o'r DU, ac wedi'i gofnodi ar 5 safle o leiaf yn y gorffennol yn Sir Gaerfyrddin - dim ond 1 safle sy'n bodoli o hyd.<br>• **Tueddiadau**: Fe'i cofnodwyd ddiwethaf yn Sir Gaerfyrddin yn Nhwyni Talacharn yn 2002 ac yn Nhwyni Tywyn yn 1971. Erbyn c.2020, ystyriwyd bod *Liparis* wedi diflannu o Sir Gaerfyrddin, ond darganfuwyd chwe phlanhigyn ym mis Gorffennaf 2022, yn yr un lleoliad yn Nhwyni Talacharn ag y gwelwyd ef ddiwethaf yn 2002.<br>Crafwyd ardaloedd newydd o dir yn Nhwyni Talacharn yn 2005, ac ardaloedd pellach y fwy diweddar wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg - mae'r | • Monitro safle 2022 a safleoedd blaenorol hysbys o leiaf unwaith y flwyddyn.<br>• Parhau i reoli safleoedd gan gynnwys defnyddio mentrau cadwraeth fel prosiect Twyni Byw. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
|  | rhain yn datblygu'n gynefin addas yn ôl pob golwg.<br>Cafodd planhigion 2022 eu hailddarganfod o fewn 1-2m o gofnodion 2002, lle'r oedd gwaith wedi bod yn cael ei wneud i reoli'r twyni dros yr 20 mlynedd cynt. Fodd bynnag, nid yw ei gwmpas wedi ehangu o gwbl, hyd yn oed o fewn y llac twyni lle bo'n ymddangos, er gwaethaf yr holl ymdrechion rheoli yn gysylltiedig â'r planhigyn.<br>• **Bygythiadau:** Colli cynefin llaciau twyni addas yn sgil olyniaeth wedi i'r pantiau sychu a chael eu gorchuddio â llystyfiant.<br>Mae'n debygol bod llygredd gwasgaredig yn yr aer ymhlith y prif fygythiadau i'r rhywogaeth hon.<br>Mae trafodaeth ar y gweill ynghylch a ddylid cyflwyno hadau Cynffig at safleoedd yn Sir Gaerfyrddin. | |
| *Lycopodium clavatum* cnwpfwsogl<br>corn carw  | • **Cynefin cysylltiedig:** Gweundir ucheldir asidig a brigiadau craig<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Heb ei fygwth (Heb ei fygwth ym Mhrydain)<br>Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE Atodiad Vb<br>Cofnodwyd o 21 tetrad yn Sir Gaerfyrddin yn y gorffennol, y mae tua 12 ohonynt wedi'u cofnodi ar ôl 2000.<br>Yn Sir Gaerfyrddin, mae *L. clavatum* wedi'i gyfyngu'n bennaf i Fynydd Mallaen, gyda phoblogaethau bach ychwanegol wedi'u cofnodi yng Nghoedwig Brechfa (2014), Caeo (2001), Crychan (1980), Mynydd Du (2012, PCBB) ac un cofnod ym Maudsland (1987) a ddinistriwyd yn ddiweddarach yn sgil plannu coedwigoedd.<br>• **Tueddiadau:** Er gwaetha'r bygythiadau gan ddefaid a gwaith coedwigaeth, ymddengys bod y rhywogaeth yn dal ei thir, yn enwedig ar Fynydd Mallaen a Mynydd Du.<br>• **Bygythiadau:** Mae'r holl boblogaethau'n fregus i ddefaid sy'n pori/sathru arnynt, yn enwedig y rhai ar Fynydd Mallaen sy'n tueddu i fod yn blanhigion unigol neu mewn casgliadau bach, â gwreiddiau llac, y mae'n hawdd i ddefaid eu tynnu o'u lle wrth sathru arnynt.<br>• Fodd bynnag, ymddengys eu bod yn gwneud yn well ar Fynydd Mallaen gan ei bod hi'n ymddangos bod llai o ddefaid yno. | • Mae angen gwneud mwy o waith cofnodi a monitro.<br>• Sicrhau bod dwyster pori defaid ar lefel briodol.<br>• Hysbysu gweithwyr coedwigaeth am leoliad poblogaethau, a gofyn am gael osgoi'r lleoliadau hyn. |
| *Melittis melissophyllum* y wenynog<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Llysieuyn lluosflwydd ag arogl cryf ar goetiroedd, ffiniau coedwigoedd a chloddiau gwrychoedd.<br>• **Statws presennol (rhestr Data Coch Cymru):** Mewn perygl (Bregus ym Mhrydain)<br>Poblogaethau bach iawn neu blanhigion unigol wedi'u cofnodi ar 6 safle yn Sir Gaerfyrddin yn y gorffennol - dim ond 1 safle sy'n dal i fodoli.<br>Mae'r unig safle yn Sir Gaerfyrddin ar glawdd ymyl ffordd yn Nyffryn Cych, heb unrhyw warchodaeth arno.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Mae'n debyg bod y boblogaeth yn parhau i fod fwy neu lai'n sefydlog.<br>• **Bygythiadau:** Mae'r planhigion yn fregus iawn yn wyneb rheolaeth amhriodol ar gloddiau ffordd (ee, torri'r clawdd yn rhy fyr) neu leihau gorchudd y coed. | • Mae angen monitro'r safle'n rheolaidd a hysbysu'r tirfeddiannwr ynghylch cyflwr y planhigion. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
| *Mentha pulegium* brymlys<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Poblogaethau brodorol: glaswelltir llaith heb ei wella sy'n cael ei bori.<br>• **Statws presennol**<br>**Rhestr Data Coch Cymru -**Poblogaethau Brodorol yn unig: Mewn perygl difrifol (Mewn perygl ym Mhrydain)<br>Wedi'i gofnodi ar 12 safle yn Sir Gaerfyrddin yn y gorffennol,<br>5 ohonynt ar ôl 2000.<br>Nid oes unrhyw boblogaethau brodorol wedi'u cofnodi yn Sir Gaerfyrddin ers y rhai ar 'dir pori gwyddau' ym Mrynaman yn y 1940au.<br>Cofnodion o blanhigion achlysurol neu blanhigion a gyflwynwyd drwy gymysgedd o hadau adfer yw'r holl gofnodion diweddar, ac maent o'r math unionsyth anfrodorol, nad yw'n denu'r un statws o ran cadwraeth.<br>Mae poblogaethau anfrodorol wedi'u cofnodi ym masleoedd afonydd (Tywi), ar dir cloddio brig wedi'i adfer (y Tymbl, y Garnant) ac ar safleoedd datblygu wedi'u hail-lunio a'u cywasgu, nad ydynt yn draenio'n dda (ee, Dafen).<br>• **Tueddiadau:** Yn tueddu i fod yn achlysurol neu i ostwng yn gyffredinol lle bu'n helaeth yn y gorffennol (y Tymbl, Dafen)<br>• **Bygythiadau:** Llystyfiant bras a phrysgwydd yn cytrefu ar dir agored, prin ei lystyfiant (y Tymbl); adeiladu dros safleoedd datblygu (Dafen). | • Monitro arbenigol ar safleoedd hysbys. |
| *Oenanthe fistulosa* cegiden bibellaidd<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** planhigyn lluosflwydd o gynefinoedd llaith neu wlyb, fel arfer mewn ardaloedd lle ceir llifogydd yn y gaeaf.<br>• **Statws presennol (rhestr Data Coch Cymru):** Pryder lleiaf (Bregus ym Mhrydain)<br>Wedi'i gofnodi ar 8 safle yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 5 cofnod ar ôl 2000.<br>Yn Sir Gaerfyrddin ceir nifer o boblogaethau bach mewn corsydd ar wastadeddau'r arfordir, ee, ar ffendir helaeth Twyni Talacharn, cors Ffrwd, ardal isaf Dyffryn Tywi o dan Gaerfyrddin, a ger Taf a Chynin o dan Sanclêr.<br>Ceir hen gofnodion o'r ddau gwm Gwendraeth, gan gynnwys poblogaeth fewndirol SoDdGA Ynys Uchaf, Porthyrhyd, nad yw wedi cael ei gweld ers 1986.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau ar y cyfan<br>• **Bygythiadau:** Draenio.<br>Prysgwydd yn tyfu dros safleoedd. | • Monitro poblogaethau hysbys yn rheolaidd.<br>• Mae'r safle sy'n eiddo i'r Cyngor yn Sanclêr yn Warchodfa Natur Leol.<br>• Mae angen monitro safle SoDdGA Ynys Uchaf ar fyrder |
| *Platanthera bifolia*<br>tegeirian llydanwyrdd bach<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** planhigyn lluosflwydd o borfeydd grugog, dolydd ffen, glaswelltir, prysgwydd agored, ymylon a rhodfeydd coetirol, ac ar rostir.<br>• **Statws presennol (rhestr Data Coch Cymru):** Pryder lleiaf (Bregus ym Mhrydain)<br>Wedi'i gofnodi ar 23 safle yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 5 ar ôl 2000.<br>Mae'r prif boblogaethau yn SoDdGA Twyni Whitehill, gwarchodfa natur SoDdGA Cae Blaen Dyffryn a SoDdGA Pen-y-Graig Goch. Mae'r ddau safle cyntaf yn cynnwys cannoedd o blanhigion.<br>Fwy na thebyg mae'r poblogaethau'n gwneud yn iawn er bod y niferoedd yn codi a gostwng yn naturiol o flwyddyn i flwyddyn.<br>Ceir tua 16 o boblogaethau llai yn y sir ond ni welwyd y rhan fwyaf ohonynt ers y 1980au neu ddechrau'r 1990au.<br>• **Tueddiadau:** Mae'n ymddangos fel pe bai'n prinhau, ond mae angen ymdrechu ar y cyd i wneud gwaith monitro er mwyn canfod pa boblogaethau a | • Parhau i arolygu/monitro - amlygu drwy Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin<br>• Ceisio cadw safleoedd sy'n bodoli mewn cydweithrediad â thirfeddianwyr. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
| | allai fodoli o hyd.<br>• **Bygythiadau:** Colli cynefin addas<br>Esgeuluso safleoedd gan ganiatáu i brysgwydd dyfu drostynt.<br>Mae llygredd gwasgaredig yn yr aer ac, o bosib, llygredd gwasgaredig mewn dŵr daear yn fygythiadau mawr i'r rhywogaeth hon. | |
| *Salsola kali* subsp. *kali* helys pigog<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir: yn cytrefu egin-dwyni yn fuan ar hyd traethlinau a blaenau twyni.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Pryder lleiaf (Bregus ym Mhrydain)<br>Cofnodwyd o 33 tetrad yn Sir Gaerfyrddin, 15 wedi'u cofnodi ar ôl 2000.<br>Yn aml ar hyd traethlinau a blaenau twyni holl systemau twyni'r sir, gan gynnwys Llansteffan, Glanyfferi, Porth Tywyn, Pwll, De Llanelli, a Phont Llwchwr.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol.<br>• **Bygythiadau:** Glanhau'r traeth yn ormodol yn aflonyddu ar blanhigion. | • Mae angen monitro, yn arbennig ar hyd traethau Pentywyn a Chefn Sidan. |
| *Scleranthus annuus* dinodd unflwydd<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Byrhoedlog mewn swbstradau graeanog agored, wedi'u haflonyddu, gan gynnwys traciau a wynebau caled.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Pryder lleiaf (Mewn perygl ym Mhrydain.<br>Wedi'i gofnodi ar 12 safle yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 2 ar ôl 2000.<br>Darganfuwyd poblogaeth fawr newydd ar drac mynediad deheuol safle yn Nhalacharn, ym mis Gorffennaf 2017, ac roedd yn dal yn bresennol yn 2022.<br>Yn flaenorol cafwyd cofnodion o lwybr graeanog yn 2007 a chlawdd siâl ger trac fferm yn 1996 – PCBB. Nid oedd unrhyw arwydd o *S. annus* yn yr olaf yn 2008, er bod wyneb y trac yn dal i ymddangos yn addas.<br>Mae'n debyg na ddaw poblogaethau eraill fyth i'r amlwg.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Mae'n debyg mai ychydig o newid a gafwyd yn ddiweddar.<br>• **Bygythiadau:** Prysgwydd, mieri a llystyfiant bras yn cytrefu a'i fygu.<br>Ailwynebu traciau wyneb graeanog/siâl a wynebau caled lle cafodd ei gofnodi yn y gorffennol.<br>• Cynnydd yn y defnydd o draciau, a thraciau'n cael eu gorchuddio â mwd. | • Angen arolygu/monitro pellach.<br>• Sicrhau bod tirfeddianwyr yn gwybod am bwysigrwydd y planhigion, a gofyn iddynt gynnal traciau mewn modd ystyriol. |
| *Trollius europaeus* cronnell | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir gwlyb, glannau afonydd a chreigiau ar glan afon<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Pryder Lleiaf (Pryder Lleiaf ym Mhrydain).<br>Wedi'i gofnodi ar 17 safle yn Sir Gaerfyrddin, dim ond | • Monitro'r holl boblogaethau diweddar ac ymweld â safleoedd o boblogaethau nas gwelwyd ers blynyddoedd lawer.<br>• Ymchwilio i berchnogaeth poblogaeth Sawdde a cheisio cyllid grant i reoli'r coed llawr-geirios. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
| --- | --- | --- |
|  | 4 ar ôl 2000.<br>Heblaw am y nifer cymharol fawr o blanhigion sy'n tyfu ar lannau caregog yr afon ger Ceunant Sawdde (PCBB?), ymddengys mai dwy boblogaeth yn unig sy'n bodoli mwyach (yng ngogledd-ddwyrain y sir) a phoblogaethau o un neu ddau blanhigyn yw'r rhain. Cofnodwyd ddiwethaf yn 2015.<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau, fwy na thebyg yn achos poblogaeth dyffryn Sawdde hyd yn oed.<br>• **Bygythiadau:** Mae'r gostyngiad difrifol yn y poblogaethau o *Trollius* yn deillio'n bennaf o wella porfeydd, lle'r oedd y planhigion yn arfer tyfu, i ddibenion amaeth.<br>• Mae planhigion Sawdde dan fygythiad ar hyn o bryd gan fod coed llawr-geirios yn bwrw eu cysgod drostynt, ac mae angen cyfeirio ymdrechion cadwraeth tuag at dorri'r bygythiad hwn yn ôl. PCBB? | PCBB?? |
| *Rhywogaethau Adran 7 a gofnodwyd yn flaenorol yn y sir ond sydd bellach o bosib wedi diflannu ohoni* | | |
| *Matthiola sinuate* murwyll tewbannog<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir: Planhigyn lluosflwydd byrhoedlog neu eilflwydd sy'n tyfu ar dwyni tywod a chlogwyni'r môr.<br>• **Statws presennol:**<br>**Rhestr Data Coch Cymru** - Pryder Lleiaf (Bregus ym Mhrydain).<br>Adran 7<br>Wedi'u cofnodi ar 2 safle yn Sir Gaerfyrddin, a chredir eu bod wedi diflannu o'r safleoedd hynny bellach.<br>Cafwyd hyd i'r holl blanhigion yn Sir Gaerfyrddin ar dwyni olynol cynnar ac egin-dwyni ar hyd traethlin Twyni Pentywyn a Thrwyn Ginst.<br>Darganfuwyd un planhigyn newydd i Sir Gaerfyrddin yn Nhrwyn Ginst yn 2006, ond ni chynhyrchwyd unrhyw epil, ac fe gafwyd hyd i amryw o blanhigion ar hyd blaenau twyni Traeth Pentywyn yn 2007. Ni pharhaodd y boblogaeth hon ychwaith.<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Wedi diflannu ar hyn o bryd, ond gallai'r rhywogaeth ei hymsefydlu ei hun unwaith eto am gyfnodau byr yn y dyfodol.<br>• **Bygythiadau:** Os bydd planhigion yn ymsefydlu, byddant yn agored iawn i gael eu difrodi neu eu dinistrio gan ddefnyddwyr y traethau. | • Mae angen gwaith monitro arbenigol ar hyd Traethau Pentywyn hyd at Drwyn Ginst. |
| *Dactylorhiza viridis* (*Coeloglossum viride*)<br>tegeirian y broga<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir tyweirch byr a llaciau twyni ar yr arfordir; glaswelltir cyfoethog neu asid dros bridd tenau yn fewndirol.<br>• **Statws presennol:**<br>Rhestr Data Coch Cymru - Mewn perygl (Bregus ym Mhrydain)<br>Fe'i cofnodwyd ar 4 safle yn Sir Gaerfyrddin, a'i weld ddiwethaf yn y sir yn Nhwyni Talacharn tua 2002, yn fewndirol ger Cwmduad (1996), ger Abergorlech (1987, heb ei ail-ganfod yn 1999) ac ar Fynydd Myddfai (1905).<br>• Mae gan GFGC hadau ar gyfer eu Banc Hadau.<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau'n gyflym<br>• **Bygythiadau:** Wedi diflannu o Sir Gaerfyrddin.<br>• Colli cynefin addas<br>• Prysgwydd yn tyfu dros safleoedd.<br>• Mae llygredd gwasgaredig yn yr aer ac, o bosib, llygredd gwasgaredig mewn dŵr daear yn fygythiadau mawr i'r rhywogaeth hon. | • Monitro pob safle lle cafodd ei gofnodi yn y gorffennol.<br>• Ceisio rheoli safleoedd mewndirol yn briodol mewn cydweithrediad â thirfeddianwyr.<br>• Parhau i reoli safleoedd arfordirol gan gynnwys defnyddio mentrau cadwraeth fel Twyni Byw. |
| | | |
| RHYWOGAETHAU ADRAN 7 NAD OES COFNODION DIWEDDAR OHONYNT OND A ALLAI FOD YN BRESENNOL ER HYNNY | | |
| *Dactylorhiza viridis* tegeirian y broga | • Gwelwyd ddiwethaf yn y sir yn Nhwyni Talacharn tua 2002 | |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â Blaenoriaeth a Nodwyd |
|---|---|---|
| *Juniperus communis* subsp. *communis*<br>merywen gyffredin | • Fe'i gwelwyd ddiwethaf yn y gwyllt yn Sir Gaerfyrddin yn 1972. | |
| *Galeopsis segetum*<br>penboeth yr ŷd | • Chwynnyn unflwydd ar dir âr a thir diffaith<br>• Dim ond un cofnod yn Sir Gaerfyrddin yn 1912. | |
| *Galeopsis speciosa*<br>y benboeth amryliw | • Chwynnyn unflwydd ar dir amaethyddol, ymylol a gwastraff.<br>• Tri chofnod yn Sir Gaerfyrddin, y mwyaf diweddar yn 1952, ond mae'n ddigon posib y gallai gael ei gofnodi eto. | |
| *Galeopsis angustifolia*<br>y benboeth gulddail | • Unflwydd ar dir âr, llefydd gwastraff a thir agored ar swbstradau calchaidd.<br>• Chwe chofnod yn Sir Gaerfyrddin, ond dim un cofnod ers 1963. | |
| | Partneriaeth Natur<br>SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE<br>Nature Partnership | |